



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd /  
*Regulation & Economic Development***

**EN010112 Prosiect Fferm Wynt Awel y Môr /  
*Awel y Môr Wind Farm Project***

Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a cheisiadau am wybodaeth (ExQ2) a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2023

*Isle of Anglesey County Council (IACC) Response to The Examining Authority's second written questions and requests for information (ExQ2)  
Issued on 23 January 2023*

**Ionawr / January 2023**

### **Cwestiwn 18.3:**

#### **Gofyniad 20 – Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth**

A oes angen cynnwys Gofyniad 20 yn Atodlen Lliniaru [REP2-024]?

#### **Ymateb CSYM:**

Ystyrir Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth yn rhan annatod o'r cais GCD er mwyn nodi'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a fydd ar gael yn lleol ac yn rhanbarthol, gan ddangos a chadarnhau'r manteision lleol posibl sy'n deillio o'r prosiect a sut y byddant yn cael eu gwneud i'r eithaf, eu hyrwyddo a'u cyflawni.

Mae CSYM yn falch o gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio ar sefydlu Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol ac maent wedi bod yn ymgysylltu ag CSYM a rhanddeiliad perthnasol i archwilio cyfleoedd yn yr ardal leol ar gyfer cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth a phrentisiaethau.

Mae gofyniad 20 o'r GCD yn mynnu bod Strategaeth fanwl derfynol yn cael ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan yr Awdurdod perthnasol cyn dechrau unrhyw ddatblygiad.

Mae CSYM o'r farn y dylid cynnwys y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth hefyd o fewn y daenlen o fesurau lliniaru. Byddai hyn yn sicrhau bod pob mesur lliniaru wedi'i leoli o fewn un lleoliad, gan ei wneud yn gyfleus ac yn glir i bawb sydd â diddordeb yr hyn sy'n gofyn am ei weithredu.

**Question 18.3:**

**Requirement 20 – Skills and Employment Strategy**

Is it necessary to include Requirement 20 in the Schedule of Mitigation [REP2-024]?

**IOACC Response:**

A Skills and Employment Strategy is considered an integral part of the DCO application in order to identify the employment and training opportunities that will be available both locally and regionally, demonstrating and confirming the potential local benefits arising from the project and how they will be maximised, promoted and achieved.

The IACC is pleased to confirm that the applicant has been working on establishing an outline Skills and Employment Strategy and have been engaging with IACC and relevant stakeholders to explore opportunities within the local area for skills and employment and apprenticeship opportunities.

Requirement 20 of the DCO requires that a final detailed Strategy be submitted and approved by the relevant Authority prior any development being commenced.

The IACC considers that the Skills and Employment Strategy should also be included within the schedule of mitigation. This would ensure that each mitigation measure is situated within one location, making it convenient and clear for all interested parties what requires implementation.